# Y Pwyllgor Deisebau

## "Cofnodion: PET(3) 14-10 : Dydd Mawrth 16 Tachwedd 2010"

Gellir gweld y cyfarfod hwn ar Senedd TV ar: http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf

**Amser:** 09.00 – 09.50
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Christine Chapman AC, Cwm Cynon (Cadeirydd)
Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru
Veronica German AC, Dwyrain De Cymru

**Swyddogion**

Naomi Stocks, Clerc
Andrew Minnis, Dirprwy Glerc
Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol
Rhodri Wyn Jones, Cymorth Pwyllgor

### Eitem 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd.

### Eitem 2. Deisebau newydd

**P-03-305 Llyfrgelloedd ysgol statudol**

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

Pwyntiau gweithredu:

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ymateb gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**P-03-306 Achub theatr y Barri**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

Pwyntiau gweithredu:

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ymateb gan y Gweinidog dros Dreftadaeth

**P-03-307 Dylunio er mwyn arloesi yng Nghymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

Pwyntiau gweithredu:

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ymateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau.

### Eitem 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

**P-03-081 Rheoliadau benthyciadau i fyfyrwyr / P-03-296 Awgrymiadau annheg ar fenthyciadau i fyfyrwyr**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i ofyn am fanylion am y gwaith y bwriedir ei wneud mewn perthynas â rheoliadau benthyciadau i fyfyrwyr yn absenoldeb cyfeiriadau eglur yn adolygiad Browne.

dychwelyd at y ddeiseb wedi i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'i hymateb i adolygiad Brown

**P-03-092 Ffordd Liniaru'r A465 i ystâd ddiwydiannol Tafarnaubach**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at Trish Law AC i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ei chyfarfod gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar 5 Tachwedd.

**P-03-136 Parcio yn y Mynydd Bychan a Birchgrove**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Wahodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar weithredu'r cynllun teithio cynaliadwy. Cytunwyd hefyd i ofyn i'r Bwrdd Iechyd ddarparu manylion, cyn y sesiwn dystiolaeth, am y wybodaeth am barcio a roddir i gleifion cyn apwyntiadau, a gwybodaeth am effaith cynllun parcio a theithio Dwyrain Caerdydd.

**P-03-143 Ysgol Penmaes**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog:

i amlygu'r pryderon a godwyd gan TRACC am y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo cyllid ar gyfer y Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Lleol;

i ofyn sut y penderfynir ar y fformiwla;

a yw'r adolygiad o gymorth ariannol i'r diwydiant bysiau'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan TRACC; a

pha bryd y bydd canlyniadau'r adolygiad yn wybyddus.

**P-03-162 Diogelwch ar y ffyrdd yn Llansbyddyd**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn pa bryd y caiff y gwelliannau arfaethedig y rhoddir manylion amdanynt yn yr adolygiad diogelwch eu cyflawni.

**P-03-204 Atebolrwydd i'r cyhoedd ac ymgynghoriadau cyhoeddus ym maes addysg uwch**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros i'r adolygiad o lywodraethu addysg uwch gael ei gyhoeddi

**P-03-206 Nofio am ddim drwy'r flwyddyn i blant a phobl ifanc**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad cloi cryno.

**P-03-208 Siroedd hanesyddol**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad cloi cryno.

**P-03-216 Triniaeth IVF**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am fanylion unrhyw achosion y maent yn ymwybodol ohonynt lle mae cleifion yn methu â chael mynediad at ail gylch o driniaeth, fel y gellir dod â hyn i sylw'r Gweinidog; ac

ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn a oes ganddi unrhyw syniad ynglyn â pha bryd y gall gyflwyno'r trydydd cylch ar y GIG.

**P-03-220 Gostyngwch y terfyn cyflymder ar yr A40 ger y Fenni / P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ddychwelyd at y mater ar ôl chwe mis pan fydd yr adolygiad o'r terfyn cyflymder ar yr A40 (T) ger y Fenni wedi'i gynnal.

**P-03-223 Adran 6, Deddf yr Iaith Gymraeg**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb a pharatoi a chyhoeddi adroddiad cloi cryno

**P-03-225 Coleg Gorseinon**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad cloi cryno.

**P-03-227 Yn erbyn y ffordd fynediad arfaethedig am Metrix yn Llanmaes / P-03-252 Gwrthwynebu ffordd fynediad ogleddol canolfan y Llu Awyr Brenhinol Sain Tathan (trigolion Trebefered)**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at Gyngor Bro Morgannwg i ofyn a fydd y ffordd arfaethedig yn mynd rhagddi yn dilyn canlyniad yr Adolygiad Strategol o Amddiffyn

**P-03-230 Diwrnod rhyngwladol gwrthwynebwyr cydwybodol**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad cloi cryno.

**P-03-232 Coetir Ffynnone a Cilgwyn**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'w wneud yn ymwybodol o bryderon parhaus y deisebwyr, ac i ofyn am i'r materion hyn gael eu hystyried wrth holi Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ar ôl y sesiwn dystiolaeth.

**P-03-238 Llygredd ym mornant Porth Tywyn**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebwyr i'w gwneud yn ymwybodol o'r ffordd y cafodd y digwyddiad o lygredd yn 2005 ei ystyried mewn ymchwiliadau i farwolaeth cocos, a'r memorandwm dealltwriaeth rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Sir Gaerfyrddin, Dwr Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru; ac

i ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn am i gopi o'r adroddiad terfynol ar farwolaeth cocos gael ei anfon at y Pwyllgor pan gaiff ei gyhoeddi.

**P-03-244 Cofrestr prosiectau bro a phrosiectau cymuned ar gyfer awdurdodau lleol**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i'w wneud yn ymwybodol o'r ddeiseb ac i ofyn a fyddai'n ystyried cyflwyno canllawiau i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am gynlluniau diogelwch ar y ffyrdd yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

**P-03-245 Cadwch reilffordd yr Wyddfa ac adeilad y copa ar gau ar un diwrnod yr wythnos**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at Gwmni Rheilffordd Eryri i ofyn am farn ar y ddeiseb.

**P-03-248 Gwella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus i bobl ag anableddau**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ymateb Llywodraeth Cymru i'w ymchwiliad i hygyrchedd trenau, ac am ei ymchwiliad i'r materion ehangach ynghylch hygyrchedd trafnidiaeth; ac

i ysgrifennu at y deisebydd i roi gwybod iddo am ymchwiliad ehangach y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

**P-03-253 Mabwysiadu carthffosydd preifat**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebwyr gyda manylion am ohebiaeth OFWAT; ac

i ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn am gael gwybod am ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y rheoliadau drafft, ac i ofyn am amserlen ar gyfer gweithredu ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

**P-03-257 Adfer darlledu o'r Cynulliad ar S4C2**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad cloi cryno.

**P-03-263 Rhestru Parc y Strade**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ddychwelyd at y ddeiseb yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Deisebau.

**P-03-272 Ni ddylid defnyddio ceffylau dan ddaear**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Faterion Gwledig i ofyn pa bryd y mae'n rhagweld y bydd penderfyniad yn cael ei wneud mewn perthynas ag adolygiadau o'r cod ymarfer yn y dyfodol.

**P-03-273 Cludo tyrbini gwynt yn y Canolbarth**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn am ragor o fanylion am sut y mae'n bwriadu datrys y problemau'n ymwneud â chludo cydrannau tyrbini gwynt, a beth yw'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer datrys y problemau.

**P-03-277 Newid y penderfyniad i werthu alcohol yn Eisteddfod yr Urdd**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad cloi cryno.

**P-03-283 Codi tâl gan y GIG i drin cleifion a'u cludo i'r ysbyty mewn achosion sy'n ymwneud ag alcohol**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at Gonffederasiwn GIG Cymru, BMA Cymru, y Coleg Nyrsio Brenhinol, Cymdeithas Parafeddygon Prydain, Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymunedol Cymru a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu i roi gwybod iddynt am y ddeiseb ac i ofyn iddynt beth fyddai'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion a godwyd: ac

i ysgrifennu at Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i ofyn am farm ei haelodau ar y ddeiseb, ac yn arbennig, a oes unrhyw newidiadau ar waith ar gyfer defnyddio'r gwasanaethau ambiwlans.

**P-03-291 Datblygu gwasanaethau gwybodaeth am HIV a iechyd rhywiol**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am fanylion am y Cynllun Gweithredu Iechyd Rhywiol.

**P-03-293 Adolygu cod derbyn i ysgolion**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am eu barn ar yr ymateb a dderbyniwyd gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**P-03-298 Cyllid ar gyfer darparu adnoddau Cymraeg ar gyfer pobl â dyslecsia yng Nghymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i ofyn am fanylion am ganlyniad y cyfarfod rhwng Dyslecsia Cymru a swyddogion

ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am eu barn ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**P-03-302 Ffatri prosesu compost**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn am ragor o wybodaeth am y mesurau gwella sy'n cael eu cyflwyno, yr adolygiad o arweiniad ar arogl mewn cyfleusterau rheoledig a pha bryd y mae'n rhagweld y caiff yr adroddiad ar ansawdd yr aer ei gwblhau.

ysgrifennu at y deisebydd i gael barn ar yr ymateb a dderbyniwyd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

## Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn breifat yn unol â Rheol Sefydlog 10.37

## Eitem 4. Trafod yr adroddiad drafft

4.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod adroddiad drafft y Pwyllgor ar y ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Tachwedd 2010**